

Yn ôl *Who's Who in Wales 1920*, yn y flwyddyn 1879 yr ymsefydlodd gŵr o Swydd Henffordd, Lloegr, fel cyhoeddwr llyfrau, yng Nghasnewydd, Gwent. Dim ond pedwar ar hugain mlwydd oedd John Edward Southall ar y pryd, wedi ei eni ar 14 Ebrill 1855 yn 1 Corn Square, Llanllieni.

Gŵr amlwg ym myd busnes a Chrynwr i'r carn oedd ei dad, sef John Tertius Southall (1822-1916). Dilledydd ydoedd. Ei wraig oedd Elizabeth Trusted, a bu iddynt dri phlentyn — Lucy Hannah (1854-1929), John Edward (1855-1928) ac Arthur Trusted (1857-1949).

Tystia Celia Southall yn ei llyfr *Records of the Southall Family* (1932) bod teulu John Tertius Southall yn hanu o'r 'Wlad Ddu' sy'n rhanbarth ddiwydiannol i'r deheu o Swydd Stafford, Lloegr ac i'r gorllewin o Birmingham. Gan fod galw di-ben-draw am ddillad, yn enwedig mewn ardaloedd poblog, nid yw'n syn gweld mai symudol fu teulu Southall am gyfnodau yn eu hanes.

Ceir tystiolaeth gan William Llewelyn Davies yn *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940*, t.864, i John Edward Southall gael ei addysgu yn Weston Super Mare, Gwlad yr Haf ac yn Ysgol y Crynwyr, Bootham, Swydd Gaerefrog. Yn ôl *Cyfrifiad Llanllieni 1861* roedd John Edward (yn bum mlwydd oed), ac Arthur ei frawd yn cael eu haddysgu gartref ar yr aelwyd. Yn Corn Square roeddent yn byw; John Tertius y tad yn 38 mlwydd oed ac yn cyflogi dau gynorthwy-ydd a thri phrentis yn ei fusnes dillad. Un o Brampton Abbots ger Rhos ar afon Gwy ydoedd Elizabeth gwraig John Tertius ac roedd hi saith mlynedd yn hŷn na'i gŵr.

Does dim dwywaith nad oedd teulu Southall yn gefnog. Roedd ganddynt y modd i gyflogi yn y flwyddyn 1861 athrawes breifat o'r enw Hannah Sarah Hanmer, merch 17 mlwydd oed, yn hanu o'r Amwythig. Yn ychwanegol cyflogid cogyddes, a'r forwyn deulu oedd Ann Jones, 19 mlwydd oed, o Wentor, Swydd Salop. Ymhlith y prentisiaid roedd William Davies, 18 mlwydd oed, o Osleton. Ni ellir ond damcaniaethu a oedd y Gymraeg i'w chlywed ar wefusau rhai o staff Southall yn 1861; digon yw crybwyll fod yno gyfenwau fel Jones a Davies, sy'n hau'r hedyd megis bod John Edward yn blentyn wedi clywed siarad y Gymraeg a hyd yn oed wedi clywed hanesion am Gymru ac mai yma y llecha'r

GWYLIEDYDD;

CYLCHGRAWN O WYBODAETH FUDDIOL,

ER BUDD I'R CYMRO UNIATH.


TAN OLYGIAD GWAINIDOGION YR EGLWYS SEFYDLEDIG.

AM Y FLWYDDYN 1837.

"A hwynt all a ffradwisadant ynghyd i ddyfod i ymladd yn erbyn Ierusalem, ac i'w rhwystro. Yna y gweddiadom ar ein Duw, ac y goddodom wylladwriaeth yn enw herbyn hwynt."

NEWEMAN IV. 8. 9.

LLYFR XIV.



BALA:

ARGRAPHEDIG GAN ROBERT SAUNDERSON.

1837.

John Edward Southall

(Hawlfraint: Godfrey New)

'sbardun iddo ymddiddori yng Nghymru fel gwlad ac iddo ddysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

Fodd bynnag, y mae Arthur Mee (*Who's Who in Wales 1921*, t.441) yn dweud i John Edward Southall ymgymryd ag astudio'r Gymraeg yn fuan ar ôl iddo ymadael â'r ysgol. Y mae lle i gredu fod 'na gyswllt Cymraeg â theulu Southall o ochr mam John a ddaliai berthynas agos â theulu Pritchard yn yr henwlad.

Wedi ymadael â'r ysgol, i fyd argraffu llyfrau a phamffledi y trodd John Edward Southall am ei fywoliaeth ac aeth ei frawd Arthur Trusted ar drywydd fymryn yn wahanol gan iddo ddyfod yn Olygydd newyddiadur, sef y *Leominster News*. Diddorol nodi mai gyda chyd-Grynwr, sef John Bellows, y prentisiwyd John Edward fel argraffydd ac yng Nghaerloyw y digwyddodd hynny yn ôl tystiolaeth James Ifano Jones, *A History of Printing and Printers in Wales . . .* (1925), t.257.

Fel y dywedwyd eisoes gŵr busnes craff oedd John Tertius, a Chrynwr pybyr. Ceisiodd wella cyfleusterau dŵr Llanllieni ac yn anad dim byd arall ceisiodd roddi ei orau i'w feibion. Ymddiddorodd John, fel Arthur ei frawd, ym myd busnes. Dywedir mai dau deulu dylanwadol oedd ar gael ym myd crefydd a busnes ar un amser yn Llanllieni — teuluoedd Southall

a'r Newmans oedd y rheini.

Wedi cyfnod byr yn gweithio fel prentis-argraffydd ym Mryste trodd John Edward ei olygon tua De Cymru ac ymsefydlu yng Nghasnewydd yng Ngwent, tref ar ei thyfiant ag iddi borthladd prysur; tref yn wir lle'r oedd galw cynyddol am wasg argraffu. Ni wyddys pwy a ofalodd am arian cychwyn busnes iddo. Ni ellir ond dyfalu bod a wnelo pobl busnes a oedd yn Grynwr rywbeth â'r fenter. Ond roedd John Edward Southall wedi'i gweld hi i'r dim. Canolodd ei hunan yn un o drefi pwysicaf, o ran safle daearyddol, De Cymru.

Ond er cefnu dros dro ar Lanllieni, ni fu i John Edward anghofio ei dref enedigol yn gyfan gwbl ychwaith. Yn ystod blynyddoedd 1875 hyd 1925 daliai ati i hybu'r achos crefyddol yn y dref. Y Crynwyr oedd yn gyfrifol am sefydlu cartref plant amddifad yno ac er bod John Edward yn byw yng Nghasnewydd, ni phallodd ei ddiddordeb ym mhlantos y Cartref yn Lanllieni oherwydd am dros hanner can mlynedd gweithredodd fel ymddiriedolwr. Dengys hyn ei fod yn ŵr o ddylanwad ac yn un a ddymunai hyrwyddo fel gwir Gristion waith ei Arglwydd Iesu gan sicrhau lles yr anffodus mewn cymdeithas. Erbyn y flwyddyn 1928 ceid 24 plentyn yn y Cartref Amddifad yn Lanllieni. Prif noddwyr y 'Cartref' oedd y 'Cyfeillion', sef


Crynwyr tebyg i John Edward.

Eithr fel argraffydd llyfrau addysgol yn bennaf ac nid dyngarwr y meddylid am John Edward Southall. Erbyn 1886, yn 106 Sryd y Deciau, Casnewydd yr oedd ei brif swyddfa; rhwng 1891 a 1909 masnachai o 149 Stryd y Dociau. Yn ôl a glywyd, erbyn heddiw, nid yw'r hyn a adwaenid fel busnes argraffu John Edward ond siop fechan yn gwerthu nwyddau gogyfer â chyrtenni.

Yn *John's Newport Directory*, blynyddoedd 1894, 1898, 1910 ac 1923, nodir bod John Edward Southall yn byw yn 5 Heol Woodland ac yn yr un Cyfeirlyfr 1894 ac 1898 disgrifir J. E. Southall fel a ganlyn: a letterpress and lithographic printer 149 Dock Street. Y mae *John's Newport Directory* 1887 yn crybwyll bod John Edward â'i gartref a'r busnes argraffu yn 106 Stryd y Dociau. Yn 1909 ffurfiwyd ei fusnes argraffu yn gwmi a hyd y flwyddyn 1911 adwaenid y cwmi fel 'Southall a Chwmi', ond o'r flwyddyn 1913 hyd 1916 ychwanegwyd 'Cyf.' at enw'r cwmi.

Yn ddiddorol iawn, ceisiodd John Edward ddysgu glaslancau yn nulliau argraffu ac fel y tystir gan James Ifano Jones bwriodd John George Cope, Crynwyr ifanc, ei brentisiaeth hefo J. E. Southall yn y flwyddyn 1911 cyn dechrau ei fusnes ei hunan fel lithograffwr yn 15 Heol Caerau, Casnewydd.

Er cymaint y dylanwad crefyddol arno, llyfrau o natur addysgol oedd yn cael sylw pennaf J. E. Southall. Gan mai hunangynhaliol oedd y wasg yng Nghasnewydd, rhaid oedd iddo ymestyn ei farchnad. Digon gwir iddo gyhoeddi llyfrau yn ymdrin â safbwyntiau a chredoau'r Crynwyr, ond roedd yn ŵr digon darbodus i fentro cyhoeddi



Cyfeirlyfr Casnewydd, 1896.